Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Tymor yr Hydref 2026 *Autumn Term 2026*
Dosbarth 6 - Blwyddyn 5 *Year 5*

Thema'r Tymor *This Term's Theme:* **Amser Maith yn ôl** *Once Upon a Time*

Y Pedwar Diben *The 4 Core Purposes*	
• **Dysgwyr uchelgeisiol a galluog** • **Cyfranwyr mentrus a chreadigol** • **Dinasyddion egwyddorol a gwybodus** • **Unigolion iach a hyderus**	• *Ambitious, capable learners* • *Enterprising, creative contributors* • *Ethical, informed citizens* • *Healthy, confident individuals*
Byddwn yn datblygu'r sgiliau hyn, lle'n briodol, ym mhob ardal o'n gwaith.	*Where applicable, these skills will be developed throughout all tasks / work.*
Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd *Cross-curricular Responsibilities*	
• **Llythrennedd** • **Rhifedd** • **Cymhwysedd Digidol**	• *Literacy* • *Numeracy* • *Digital Competency*
Bydd y sgiliau hyn yn cael eu defnyddio ym mhob ardal o'n gwaith.	*These skills will be used throughout all aspects of our work.*

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu *Languages, Literacy and Communication*	
Ystod o weithgareddau darllen a deall. **Ysgrifennu barddoniaeth am yr hyn sy'n ein gwneud yn hapus.** **Trafod beth sy'n gwneud arweinydd da drwy astudio arweinwyr hanesyddol a chyfiawnhau barn.** **Ysgrifennu erthygl bapur newydd am ddigwyddiad arwyddocaol, megis dechrau neu ddiwedd y rhyfel,** **Creu iMovie byr am arweinydd hanesyddol.** **Bywgraffiad am Winston Churchill.**	*A range of reading comprehension activities.* *Write poetry about what makes us happy.* *Write a newspaper article about a significant event, such as the beginning or end of World War II.* *Discuss what makes a good leader by studying historical leaders and justifying opinions.* *Create a short iMovie about a historical leader.* *Write a biography of Winston Churchill.*
Mathemateg a Rhifedd *Mathematics and Numeracy*	
Darllen, ysgrifennu, amcangyfrif a chymharu rhifau a degolion gan gynnwys gwaith rhifedd ar boblogaeth gwledydd. **Amser ac arian.** **Adnabod rhifau cysefin, lluosrifau a ffactorau.** **Defnyddio gweithrediadau gwrthdro i wirio.** **Priodweddau siapiau a rhwydi 3D.** **Talgrynnu a lluosi gyda 10, 100, 1000.** **Datrys problemau adio, tynnu, lluosi a rhannu.**	*Read, write, estimate and compare numbers and decimals including numeracy work on the population of countries.* *Time and money.* *Identify prime numbers, multiples and factors.* *Use inverse operations to check work.* *Properties of shapes and 3D nets.* *Rounding and multiplying by 10, 100, 1000.* *Solve addition, subtraction, multiplication and division problems.*

Gwyddoniaeth a Thechnoleg *Science and Technology*	
Dysgu sut mae'r corff yn gweithio, effaith hormonau ar y corff. **Trafod sut mae pethau byw yn cystadlu am adnoddau penodol ac yn dibynnu ar ei gilydd er mwyn goroesi.** **Ymchwiliadau amrywiol am y corff.** **Creu a dadansoddi bas data am unigolion ac arweinwyr pwysig yn ystod yr Ail Ryfel Byd.** **Gwaith technoleg bwyd - paratoi salad.**	*Learning how the body works, the effect of hormones on the body.* *Discuss how living things compete for specific resources and depend on each other in order to survive.* *Various investigations about the body.* *Create and explore a database about significant people and leaders during World War II.* *Food technology work - preparing a salad.*
Y Celfyddydau Mynegiannol *The Expressive Arts*	
Dysgu am arlunwyr enwog drwy gydol hanes. **Creu portread o arweinydd hanesyddol neu grefyddol dylanwadol, gan ddatblygu medrau lluniadu, cysgodi ac arsylwi.** **Trafod yr effaith y gall ein gwaith creadigol ei chael ar eraill.** **Ymarferion drama i fynegi cyflyrau corfforol a meddyliol trwy iaith y corff, mynegiant wyneb, ac adrodd straeon grŵp.**	*Learn about famous painters throughout history.* *Create a portrait of an influential historical or religious leader, developing drawing, shading and observational skills.* *Discuss the impact our creative work has on others.* *Drama exercises to express physical and mental states through body language, facial expressions, and group story telling.*
Dyniaethau *Humanities*	
Trafod democratiaeth, Senedd Cymru a'r pleidiau gwahanol wrth ysgrifennu maniffesto Senedd yr ysgol. **Dysgu am unigolion a ddangosodd ddewrder ac arweinyddiaeth yn ystod yr Ail Ryfel Byd a sut y gwnaethant helpu eraill.** **Cymharu bywyd bob dydd cyn, yn ystod ac ar ôl yr Ail Ryfel Byd.** **Dysgu am arweinwyr o wahanol grefyddau ac archwilio'r rhinweddau sy'n eu gwneud yn arweinwyr da.** **Gwaith cywaith ar y 1980'au.**	*Learn about democracy and the Senedd and the different political parties when writing a manifesto for the School's Senedd.* *Explore people who showed courage and leadership during World War II and how they helped others.* *Compare everyday life before, during and after World War II.* *Learn about leaders from different religions and explore the qualities that make them good leaders.* *Project work on the 1980's.*
Iechyd a Lles *Health and Wellbeing*	
Chwaraeon amrywiol (Dydd Mercher). **Dysgu am iechyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd a sut roedd pobl yn cael gofal.** **Archwilio bwyd a dogni yn ystod yr Ail Ryfel Byd a chymharu bwyd adeg y rhyfel â'r hyn rydym yn ei fwyta heddiw.** **Dysgu sut effeithiodd yr Ail Ryfel Byd ar iechyd a lles pobl a sut y gwnaethant ymdopi yn ystod cyfnodau anodd.** **Archwilio rôl meddygon, nyrsys a gweithwyr cymorth cyntaf yn ystod yr Ail Ryfel Byd.**	*Various sports (Wednesday).* *Learn about health during World War II and how people were cared for.* *Explore food and rationing during World War II and compare wartime food with what we eat today.* *Learn how World War II affected people's health and wellbeing and how they coped during difficult times.* *Explore the role of doctors, nurses and first-aid workers during World War II and how they helped others.*

Croeso i Ddosbarth 6 *Welcome to Class 6*

6d5@hwbcymru .net

Sut y gallwch helpu *How you can help*	
Gall rhieni/gofalwyr gefnogi dysgu eu plentyn drwy ddarllen gyda nhw'n rheolaidd, annog arferion gwaith cartref da a siarad am yr hyn y maent wedi'i ddysgu yn yr ysgol bob dydd. Gall ymarfer sgiliau allweddol fel darllen, sillafu a ffeithiau rhif wneud gwahaniaeth mawr, tra bod canmol ymdrech a chynnydd yn helpu i feithrin hyder ac agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu.	*Parents/carers can support their child's learning by reading with them regularly, encouraging good homework habits and talking about what they have learned at school each day. Practising key skills such as reading, spelling and number facts at home can make a big difference, while celebrating effort and progress helps to build confidence and a positive attitude towards learning.*

Cysylltu â ni *Contacting us*	
Croeso i chi gysylltu â'r dosbarth trwy ebost gydag unrhyw gwestiynau neu i rannu gwybodaeth bwysig â ni. Nid ydym yn darllen ebyst yn ystod y dydd gan ein bod yn brysur yn addysgu, felly os bydd neges bwysig ffoniwch 01443 237837	*You are welcome to email us in class if you have any questions or need to share information with us. We don't read emails during the day as we are busy teaching, so if you have an important message, please phone 01443 237837*

Addysg Gorfforol *Physical Education*	
DYDD MERCHER **Gall y plant wisgo dillad Addysg Gorfforol i'r ysgol ar y diwrnod hwn.**	*WEDNESDAY* *The children may wear their PE kit to school on this day.*

Gwaith Cartref *Homework*	
Bydd gwaith cartref yn cael ei osod ar Google Classroom bob dydd Gwener. Disgwylir i'r plant gwblhau'r tasgau yn ystod yr wythnos a chyflwyno eu gwaith erbyn dydd Iau drwy wasgu 'Cyflwyno'.	*Homework will be set on Google Classroom every Friday. The children are expected to complete the tasks during the week and submit their work by Thursday by clicking 'Turn in'.*

Darllen *Reading*	
Bydd y plant yn darllen llyfrau Cymraeg a Saesneg bob yn ail wythnos a dylent ddod â'u ffolder darllen i'r ysgol bob dydd, gan gofnodi eu hunain yn eu llyfrau cofnod yn ddyddiol. Rydym yn rhoi mwy o ryddid i'r disgyblion ddewis eu llyfrau i ddatblygu annibyniaeth. Er hynny, byddwn yn cadw llygad i sicrhau fod y disgyblion yn dewis yn addas. Yn ystod yr wythnos, bydd y plant yn cymryd rhan mewn carwsél o weithgareddau darllen amrywiol a llythrennedd i ddatblygu eu sgiliau darllen a deall. Yn ystod y sesiynau hyn byddwn yn asesu darllen y plant fel rhan o'r weithgaredd darllen grŵp.	*The children will read Welsh and English books every other week and should bring their reading folder to school every day, recording themselves in their reading record daily. We give the pupils more freedom to choose their own books to develop independence. Yet, we'll keep an eye to make sure they're choosing appropriately. During the week, the children will take part in a carousel of different reading and literacy activities to develop their reading and comprehension skills. During these sessions, we'll assess the children's reading as part of the group reading activity*

Presenoldeb *Attendance*		**Gwyliau** *Holidays*	
Mae'n bwysig iawn fod pob plentyn yn mynychu'r ysgol bob dydd ac yn cyrraedd yn brydlon. Gofynnir i chi ffonio swyddfa'r ysgol cyn 09:00 bob dydd y bydd plentyn yn dost i'n hysbysu - gadewch neges fer ar y peiriant ateb.	*It is essential that all children attend school every day and arrive promptly. You are kindly asked to phone the school office before 09:00 each day of an absence to inform us - leave a short message on the answerphone.*	**Gofynnir yn garedig i rieni / gofalwyr lenwi'r ffurflen ar-lein berthnasol o leiaf 4 wythnos cyn y cyfnod o absenoldeb. Mae'r Awdurdod Lleol a'r ysgol yn cynghori yn gryf na ddylai disgyblion fynd ar wyliau yn ystod y tymor ysgol. Ffurflen isod.**	*We kindly ask that the relevant online form is completed by a parent / carer not less than four weeks prior to the period of absence. The Local Authority and school strongly advise that pupils should not take holidays in term time. Form below.*
Salwch *Illness*		**Gwybodaeth bellach** *Further Information*	
Deallwn fod plant yn dost o bryd i'w gilydd! Cofiwch gysylltu os bydd eich plentyn yn absennol oherwydd salwch. Mae'n bwysig ein bod yn ystyried holl blant eraill y dosbarth cyn anfon plentyn sydd ddim yn hwylus i'r ysgol. Mae modd i ni weinyddu meddyginiaeth yn ystod y dydd os yw'ch plentyn yn ddigon iach i ddod i'r ysgol ond bod angen moddion arno/arni. Ffurflen isod.	*We totally understand that children are unwell from time to time! Remember to phone school if your child is absent due to illness. It's important that we consider all the other children in class before sending a child who is under the weather to school. We are able to administer prescribed medication to children during the school day if they are well enough to attend school but need medicine. Form below.*	**Diolch i chi am sicrhau bod popeth gan eich plentyn ar gyfer y diwrnod wrth gyrraedd yr ysgol bob bore: cot / bag / byrbryd / llyfr darllen / diod / brechdanau / cas pensiliau.**	*Thank you for ensuring that your child has everything they need for the day ahead when arriving at school each morning: coat / bag / snack / reading book / drink / sandwiches / pencil case.*

Dolenni Defnyddiol *Useful Links*

- **Llythyron /** *Letters*
- **Llais Llantrisant - Cylchylythyr /** *Newsletter*
- **Ffurflenni Allweddol /** *Key Forms*
- **Iechyd a Moddion /** *Health and Medicines*
- **Cwricwlwm /** *Curriculum*
- **Cyn ac Ar ôl Ysgol /** *Before and After School*
- **Gwyliau ac Absenoldebau /** *Holidays and Absences*
- **Gwisg Ysgol /** *School Uniform*
- **Prosbectws yr Ysgol /** *School Prospectus*